# Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Iechyd, Darparu Gofal Di-dâl ac Anabledd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

| | Sir Gaerfyrddin | | | | Cymru | | | | Cymru a Lloegr | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | | **2021** | | 2011 | | **2021** | | 2011 | | **2021** | |
| **Yr holl breswylwyr arferol** | 183,777 | | **187,897** | | 3,063,456 | | **3,107,495** | | 56,075,912 | | **59,597,542** | |
| **Iechyd Cyffredinol** | | | | | | | | | | | | |
| Iechyd da iawn | 82,638 | 45.0% | **84,785** | **45.1%** | 1,428,697 | 46.6% | **1,436,479** | **46.2%** | 26,434,409 | 47.1% | **28,827,308** | **48.4%** |
| Iechyd da | 55,618 | 30.3% | **59,550** | **31.7%** | 953,363 | 31.1% | **1,005,485** | **32.4%** | 19,094,820 | 34.1% | **20,046,220** | **33.6%** |
| Iechyd gweddol | 30,011 | 16.3% | **29,491** | **15.7%** | 447,789 | 14.6% | **449,655** | **14.5%** | 7,401,881 | 13.2% | **7,597,001** | **12.7%** |
| Iechyd gwael | 11,475 | 6.2% | **10,554** | **5.6%** | 178,222 | 5.8% | **164,102** | **5.3%** | 2,428,668 | 4.3% | **2,412,358** | **4.0%** |
| Iechyd gwael iawn | 4,035 | 2.2% | **3,517** | **1.9%** | 55,385 | 1.8% | **51,774** | **1.7%** | 716,134 | 1.3% | **714,655** | **1.2%** |
| **Yr holl breswylwyr arferol** | 183,777 | | **178,840** | | 3,063,456 | | **2,952,408** | | 56,075,912 | | **56,365,506** | |
| **Darparu Gofal Di-dâl** | | | | | | | | | | | | |
| Darparu dim gofal di-dâl | 159,788 | 86.9% | **158,454** | **88.6%** | 2,693,226 | 87.9% | **2,641,657** | **89.5%** | 50,275,666 | 89.7% | **51,376,490** | **91.1%** |
| Darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos | 13,390 | 7.3% | **8,778** | **4.9%** | 212,436 | 6.9% | **138,325** | **4.7%** | 3,665,072 | 6.5% | **2,442,050** | **4.3%** |
| Darparu rhwng 20 a 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos | 3,485 | 1.9% | **4,231** | **2.4%** | 54,046 | 1.8% | **65,597** | **2.2%** | 775,189 | 1.4% | **1,035,366** | **1.8%** |
| Darparu dros 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos | 7,114 | 3.9% | **7,377** | **4.1%** | 103,748 | 3.4% | **106,829** | **3.6%** | 1,359,985 | 2.4% | **1,511,600** | **2.7%** |

*Dadansoddiad:*

- *Mae 76.8% o breswylwyr Sir Gaerfyrddin yn dweud bod eu hiechyd yn Dda neu'n Dda Iawn. Er gwaethaf ychydig o gynnydd ers cyfrifiad 2011 (75.3%), mae hyn yn parhau i fod yn llai nag yng Nghymru (78.6%) ac yng Nghymru a Lloegr (82%).*
- *Mae canran y preswylwyr ag iechyd gwael iawn wedi lleihau yn Sir Gaerfyrddin o 2.2% i 1.9%. Mae hyn yn ostyngiad ychydig yn fwy nag mewn rhanbarthau eraill, ond Sir Gaerfyrddin sy'n parhau â'r gyfran uchaf o breswylwyr ag iechyd gwael iawn.*
- *Mae dros 20,000 (11.4%) o breswylwyr Sir Gaerfyrddin yn darparu gofal di-dâl yn wythnosol, ac mae bron i 7,400 (36%) o'r gofalwyr hyn yn darparu 50 neu fwy o oriau o ofal di-dâl yr wythnos. Er gwaethaf gostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol (13.1%), mae hyn yn parhau i fod yn gyfran uwch o breswylwyr o gymharu â Chymru (10.5%) a Chymru a Lloegr (8.8%)*

Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022
Cynhyrchwyd gan y Tîm Dealltwriaeth Data, Cyngor Sir Caerfyrddin

Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored
E-bost: Data@sirgar.gov.uk

# Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Iechyd, Darparu Gofal Di-dâl ac Anabledd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

| | Sir Gaerfyrddin | | | | Cymru | | | | Cymru a Lloegr | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | | 2021 | | 2011 | | 2021 | | 2011 | | 2021 | |
| **Yr holl breswylwyr arferol** | 183,777 | | **187,895** | | 3,063,456 | | **3,107,494** | | 56,075,912 | | **59,597,542** | |
| **Anabledd** | | | | | | | | | | | | |
| **Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb** | | | **43,152** | **23.0%** | | | **670,266** | **21.6%** | | | **10,444,776** | **17.5%** |
| **Anabl:** Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu llawer | 24,912 | 13.6% | **21,255** | **11.3%** | 364,318 | 11.9% | **319,406** | **10.3%** | 4,769,712 | 8.5% | **4,459,763** | **7.5%** |
| **Anabl:** Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig | 21,763 | 11.8% | **21,897** | **11.7%** | 331,537 | 10.8% | **350,860** | **11.3%** | 5,278,729 | 9.4% | **5,985,013** | **10.0%** |
| **Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb** | - | - | **144,743** | **77.0%** | - | - | **2,437,228** | **78.4%** | - | - | **49,152,766** | **82.5%** |
| **Ddim yn anabl**: Unigolion â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol tymor hir ond ni chyfyngir ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd | - | - | **11,654** | **6.2%** | - | - | **206,540** | **6.6%** | - | - | **4,062,569** | **6.8%** |
| **Ddim yn anabl**: Dim cyflyrau iechyd corfforol na meddyliol tymor hir | - | - | **133,089** | **70.8%** | - | - | **2,230,688** | **71.8%** | - | - | **45,090,197** | **75.7%** |
| **Ni chyfyngir ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd** | 137,102 | 74.6% | **-** | **-** | 2,367,601 | 77.3% | **-** | **-** | 46,027,471 | 82.1% | **-** | **-** |
| **Pob Aelwyd** | - | - | **81,756** | | - | - | **1,347,112** | | - | - | **24,783,199** | |
| **Nifer y bobl anabl ar yr aelwyd** | | | | | | | | | | | | |
| Dim pobl anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | - | - | **49,239** | **60.2%** | - | - | **836,508** | **62.1%** | - | - | **16,764,706** | **67.6%** |
| 1 person anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | - | - | **24,845** | **30.4%** | - | - | **396,883** | **29.5%** | - | - | **6,346,966** | **25.6%** |
| 2 neu fwy o bobl anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | - | - | **7,672** | **9.4%** | - | - | **113,721** | **8.4%** | - | - | **1,671,527** | **6.7%** |

*Dadansoddiad:*

- *Mae canran y preswylwyr sydd ag anabledd cyfyngol wedi gostwng ychydig yn Sir Gaerfyrddin ac yn genedlaethol. Mae 11.3% o'r rhain wedi'u cyfyngu llawer o ran gallu cyflawni eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.*
- *Sir Gaerfyrddin sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd â 2 neu fwy o bobl anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sef 9.4%, o gymharu ag 8.4% yng Nghymru a 6.7% yng Nghymru a Lloegr.*



# Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Iechyd, Darparu Gofal Di-dâl ac Anabledd

*Diffiniad:*

*Iechyd Cyffredinol*

*Iechyd cyffredinol yw hunanasesiad o gyflwr iechyd cyffredinol person. Gofynnwyd i bobl asesu a oedd eu hiechyd yn dda iawn, yn dda, yn weddol, yn wael neu'n wael iawn. Nid yw'r asesiad hwn yn seiliedig ar iechyd person dros unrhyw gyfnod penodol o amser.*

*Darparu Gofal Di-dâl*

*Mae person yn darparu gofal di-dâl os yw'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau a chymdogion neu eraill, neu eu bod yn rhoi cymorth iddynt, oherwydd afiechyd neu anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw weithgareddau sy'n rhan o gyflogaeth ddi-dâl. Ni wahaniaethir rhwng y gofal y mae person yn ei ddarparu ar ei aelwyd ei hun neu y tu allan i'r aelwyd, felly ni ellir gwneud unrhyw gysylltiad penodol ynghylch a yw'r gofal a ddarperir ar gyfer person ar yr aelwyd sydd ag iechyd cyffredinol gwael neu broblem iechyd tymor hir neu anabledd.*

*Pobl anabl*

*Mae'r bobl a asesodd eu gweithgareddau o ddydd i ddydd fel rhai sydd wedi'u cyfyngu gan gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol tymor hir neu afiechydon yn cael eu hystyried yn anabl. Mae'r diffiniad hwn o berson anabl yn cydymffurfio â'r safonau sydd wedi'u cysoni ar gyfer mesur anabledd ac mae'n unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).*

*Nifer y bobl anabl ar yr aelwyd*

*Nifer y bobl ar yr aelwyd a asesodd fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu gan gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol tymor hir neu afiechydon ac sy'n cael eu hystyried yn anabl. Mae'r diffiniad hwn o berson anabl yn cydymffurfio â'r safonau sydd wedi'u cysoni ar gyfer mesur anabledd ac mae'n unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).*

Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022
Cynhyrchwyd gan y Tîm Dealltwriaeth Data, Cyngor Sir Caerfyrddin
Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored
E-bost: Data@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr • Carmarthenshire County Council